

18



68.

CAN Y LEC SIWN.

TON—"Nelly Bly."

MAE'R blaidd Ryddfrydig, onid yw,
 Fel lefaip yn y blawd
 Yn gweithio 'i ffordd yn rymus iawn
 Drwy rwystrau fyrdd a gwawd :
 Fel llong lawn hwyliau, gadarn, gref,
 Ar fôr trochionog byw ;
 I borthladd llwyddiant mae hi'n myn'd,
 A RICHARDS wrth y llyw.
 Fel llong lawn hwyliau, &c.

Ni fedr scriwiau'r ddaear 'nawr,
 Na brâd na gorthrwm llu,
 Niweidio hynt y llong—mae'r tide,
 A gwynt y nef o'i thu :
 Mae'i hegwyddorion fel y wawr,
 Yn lluchio'u golau cân,
 Nes gyru t'wyllwch gormes gwael
 I gerdded yn mhob man.

Yn Arfon deg y gwelir hwy
 Yn ferw gwyllt drwy'r wlad,
 A bloeddiant, "*Parry* fynwn ni—
 "Yn mhell bo 'mab ei dad':"
 A hwythau'n Môn—yr hen Sir Fôn,
 Nis gallant oddef mwy,
 'Does dim yn llai a'u boddiant 'nawr
 Na *Davies* iddynt hwy.

Maent yn Sir Ddinbych fel un gwr,
 Dros Ryddid deg yn dyn,
 Eu *Watkin Williams*, fynant gael,—
 (Nid *Watkin Williams Wynn*),
 Ac yn Meirionydd, law yn llaw,
 Fe waeddant yn gytun,
 Nes dawnsia'r Gader Idris draw—
 Ein *Williams* ydyw'r dyn.

Yn Fflint mae *Grosvenor* yn parhau,
 A *Tracy*'n Maldwyn sydd,
 Yn gwylio'u lles yn ngwresog sêl
 Eu hegwyddorion rhydd;
 Ac yn Nghaerfyrddin gwaeddi maent
 Yn unol a didaw,
 "Ein *Sartoris* a fynwn gael
 I'n gwylio maes o law."

Maent hwythau'n Aberteifi'n fyw
 Am *Richards* ddoeth i'w côl,
 Ac nid yw *Merthyr* ac *Aberdar*
 'Run gronyn bach ar ol—
 Eu *Richard* hoff, a'u *Fothergil*,
 Yw testun eu holl gân,
 A chyn y collant eu hoff wŷr
 Fe ro'nt y byd ar dân.

Yn Mynwy ceir ein *Clifford* ddewr
 Yn gwel'd ei ffordd yn rhydd,
 Ac ymladd wneiff am chwareu teg
 Tra dalio goleu'r dydd:
 Ac yn Sir Benfro pwy sy'n well,
 A phwy sy'n uwch ei air,
 A phwy sy'n caru llwydd ei wlad
 Fel gwron y Llwyngwair.

Mae'r blaid Ryddfrydig, onid yw,
 Fel lefain yn y blawd,
 Yn gweithio'i ffordd yn rymus iawn
 Drwy rwystrau fyrdd a gwawd:
 Fel llong lawn hwyliau, gadarn, gref,
 Ar for trochionog byw,
 I borthladd llwyddiant mae hi'n myn'd,
 A RICHARDS wrth y llyw.

CLADEDIGAETH Y TORIES.

TON—" *Johnny comes Marching Home.*"

Mi ganwn gân ar ding dong Bell,
 Ding dong, ding dong,
 Wrth gladdu'r "Tories," O ffarwel,
 Ding dong, ding dong:
 Mae clychau'r byd yn canu'i gyd,
 Cydunwn ninau a un fryd,
 I roi ding dong Bell ar fedd y Tory taer.

Wrth ganu cân ar ding dong Bell,
 Ding dong, ding dong,
 Rhaid bloeddio'n uchel, dyna'r fel,
 Ding dong, ding dong:

A "hip hwrê" mewn gwlad a thre',
 I'n Richards anwyl hyd y ne',
 A rhoi ding dong Bell ar fedd y Tory taer.

Mae twyll a gweniaith wedi myn'd,
 Ding dong, ding dong,
 I grombil daear hefo'u ffrynd,
 Ding dong, ding dong:
 A dwfn yw'r briw sy' ar groen y sgrïw,
 Cydunwn ninau tra b'on byw,
 I roi ding dong Bell ar fedd y Tory taer.

Mae claddfa'r "Tories" wedi ei gwneyd,
 Ding dong, ding dong,
 Hwrê i'n Richards gyda dweyd,
 Ding dong, ding dong:
 Fe gyfyd ef ein tras a'n tref
 A gorddyrchafwn ninau ef—
 Trwy roi ding dong Bell ar fedd y Tory taer.

O! dyma gladdedigaeth del!
 Ding dong, ding dong,
 Yn nghanol music ding dong Bell,
 Ding dong, ding dong:
 Y Tory sâl yn farw syth
 A'r Whig yn bloeddio "Richards byth"
 Gyda ding dong Bell ar fedd y Tory taer.

Wel, dyma fedd y taera'n fyw,
 Ding dong, ding dong,
 Hen borthmon cydwybodau yw,
 Ding dong, ding dong:
 Mae rhyw gydwibod gan bob dyn,
 Ond claddwyd hwn heb feddu'r un
 O rhown ding dong Bell ar fedd y Tory taer.